Uwchgynhadledd Newid Hinsawdd a Gwydnwch Cymru – tanau gwyllt

22 Hydref 2026

<u>Eitem 3 ar yr Agenda</u> – Defnydd tir a rheoli tir yng nghyd-destun gwella gwydnwch yn erbyn tanau gwyllt yng Nghymru

Mae'r papur hwn yn nodi pwyntiau allweddol i gefnogi trafodaeth o dan eitem 3 ar yr agenda.

Mae'r digwyddiadau tanau gwyllt difrifol a fu yng Nghymru yn ystod haf 2026 wedi codi pryderon am wydnwch tirweddau, ecosystemau a chymunedau i'r risg uwch o danau gwyllt sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd.

Bydd yr eitem hon yn canolbwyntio ar y rôl gall rheoli tir ei chwarae o ran cefnogi gwydnwch yn erbyn tanau gwyllt ledled Cymru, ac yn ystyried pa newidiadau sydd eu hangen yn ein dull o reoli tir nawr i sicrhau bod ein tirweddau'n gallu gwrthsefyll digwyddiadau tanau gwyllt sy'n fwy cyson a difrifol.

O ddiddordeb arbennig yw'r rôl gall gwahanol bolisïau ac arferion rheoli tir ei chwarae drwy reoli 'llwyth tanwydd' - faint o lystyfiant fflamadwy a deunyddiau llosgadwy eraill sy'n bresennol mewn tirwedd sydd ar gael i'w losgi. Mae tystiolaeth yn dangos bod llwyth tanwydd uchel, yn enwedig mewn cynefinoedd rhostir a gweundir, ochr yn ochr â hafau poethach a sychach, eisoes yn cynyddu'r risg o danau gwyllt yng Nghymru ac, ar sail y rhagolygon presennol ar gyfer newid hinsawdd, bydd y risg hon yn parhau i gynyddu. Y risg yw y bydd tanau'n dechrau'n haws, ond hefyd, ar ôl iddynt ddechrau, y byddant yn llosgi'n hirach ac yn cael effeithiau mwy difrifol ar ecosystemau a chymunedau.

O dan yr eitem hon, hoffem hefyd glywed gan y rhai sy'n bresennol am y camau maen nhw'n meddwl sydd eu hangen i gefnogi adferiad ecosystemau a gwydnwch tirwedd ar ôl tanau gwyllt, ac i reoli'r risgiau amgylcheddol ar ôl tân fel llifogydd, erydu pridd, dirywiad yn ansawdd y dŵr a pheryglon amgylcheddol (gan gynnwys cysylltiadau ag effeithiau ar iechyd pobl).

Y cyd-destun – newidiadau yn natur tanau gwyllt yng Nghymru

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae tanau gwyllt wedi effeithio ar ardal fwy o lawer o Gymru na'r tueddiadau hanesyddol, gyda'r ardal llosgi yn 13,969ha yn 2025 a'r ardal llosgi yn 15,650ha yn 2026. Mae'n ymddangos bod amseriad a natur y tanau gwyllt hefyd yn newid. Yn hanesyddol roedd y rhan fwyaf o danau gwyllt yng Nghymru yn digwydd yn y gwanwyn, ond rydym yn gweld cynnydd sydyn mewn tanau gwyllt yn yr haf, sy'n llosgi'n fwy dwys. Roedd tanau gwyllt haf 2026 yn y De gan mwyaf, ond cafwyd tanau mawr yn y Gogledd a'r Canolbarth hefyd *(Atodiad 1).*

Uwchgynhadledd Newid Hinsawdd a Gwydnwch Cymru – tanau gwyllt

22 Hydref 2026

Yn 2026 roedd 38% o'r ardal llosgi yn dir comin, gan gynnwys yr Epynt (o'i gymharu â 53% yn 2025), ac roedd 53% o'r ardal llosgi ar Dir Amaethyddol a Hawliwyd (o'i gymharu â 41.3% yn 2025). Bu effaith sylweddol ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, gan eu bod yn cynrychioli 67% o'r ardal llosgi yn 2026 a 49% yn 2025. Bu effaith fawr ar fawn dwfn hefyd, gyda 40% o ardal llosgi 2026 ar fawn dwfn (o'i gymharu â 27% yn 2025). I'r gwrthwyneb, bu llai o effaith ar goetiroedd (fel y'u dosbarthir gan y Rhestr Coetiroedd Cenedlaethol), gan gynrychioli dim ond 4.7% o ardal llosgi 2026 a 4.2% o ardal llosgi 2025.

Datblygu'r sylfaen dystiolaeth

Gofynnir i'r rhai sy'n bresennol ystyried cyflwr y sylfaen dystiolaeth mewn perthynas â'r rôl gall rheoli tir ei chwarae o ran cefnogi gwydnwch yn erbyn tanau gwyllt yng Nghymru. Dylai hyn gynnwys tystiolaeth sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd ymyriadau rheoli tir o ran:

- Lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â thanau gwyllt yn y dyfodol; a
- Lliniaru effeithiau amgylcheddol yn dilyn digwyddiadau tanau gwyllt

Yn y cyd-destun hwn, mae lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â thanau gwyllt yn y dyfodol yn cynnwys unrhyw fesurau rheoli tir neu ddefnydd tir i leihau eu tebygolrwydd, eu hamlder, eu hyd a'u lled, a difrifoldeb eu heffeithiau ar yr amgylchedd ac ar iechyd pobl pan fyddant yn digwydd.

Fel rhan o hyn, gofynnir i'r rhai sy'n bresennol ystyried unrhyw dystiolaeth mae arnynt eisiau tynnu sylw Llywodraeth Cymru ati. Gofynnir hefyd i'r rhai sy'n bresennol rannu safbwyntiau ar y ffordd orau o ddod â chonsensws ynghyd ar y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, ac unrhyw fylchau allweddol yn y dystiolaeth sydd angen sylw yn eu barn nhw.

Dulliau Rheoli ac Ysgogiadau Polisi

Gofynnir i'r rhai sy'n bresennol ystyried rôl ffyrdd gwahanol o reoli llystyfiant a strwythur cynefinoedd er mwyn cefnogi gwydnwch yn erbyn tanau gwyllt ar lefel tirwedd.

Gallai rheoli llystyfiant yn weithredol gynnwys:

- Rheoli trefniadau pori
- Pori er lles cadwraeth wedi'i dargedu drwy ddefnyddio gwartheg, defaid, merlod neu bori cymysg
- Torri a chlirio llystyfiant yn strategol
- Rheolaeth fecanyddol lle nad yw pori'n ymarferol
- Llosgi dan reolaeth pan fydd tystiolaeth yn cefnogi gwneud hyn

Uwchgynhadledd Newid Hinsawdd a Gwydnwch Cymru – tanau gwyllt

22 Hydref 2026

Mae strwythurau cynefin mwy gwydn yn debyg o gynnwys cynefinoedd sy'n fwy amrywiol yn strwythurol, tirweddau clytwaith, llystyfiant o uchder ac oedran gwahanol, a chynnwys strimynnau atal tân naturiol.

Gofynnir i'r rhai sy'n bresennol ystyried y rôl y gallai ysgogiadau polisi presennol a chynlluniau cyllido cysylltiedig (fel y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd, cynlluniau Rheoli Llifogydd yn Naturiol a'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur) ei chwarae o ran cymell y math o reolaeth a fydd yn gwella gwydnwch yn erbyn tanau gwyllt ledled Cymru, gan gynnwys pa newidiadau/addasiadau y gallai fod eu hangen a lle gellid cael 'enillion cyflym'.

Gofynnir hefyd i'r rhai sy'n bresennol ystyried a oes rhai cymhellion presennol sy'n anfwriadol ganiatáu i danwydd gronni'n anghynaliadwy mewn rhai tirweddau.

Adfer ecosystem ar ôl tanau gwyllt

Gofynnir i'r rhai sy'n bresennol ystyried pa gamau sydd eu hangen i gefnogi adferiad ecosystemau ar ôl tanau gwyllt, gan gynnwys sicrhau bod tirfeddianwyr a rheolwyr yn gallu cael gafael ar y cyngor iawn, er mwyn eu helpu i gymryd camau priodol lle bo angen, ar yr un pryd â chydymffurfio â gofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â deddfwriaeth asesiad o'r effaith amgylcheddol Tir Comin ac Amaethyddiaeth.